

Dogfen Gyhoeddus



**BWRDEISTREF SIROL
MERTHYR TUDFUL
A
RHAN ISAF CWM CYNON
(BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF)**

DOGFEN GYHOEDDUS

CEFNDIR

Yn anffodus, mae nifer yr achosion o COVID-19 yng nghymunedau Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, yn ogystal â'r cyfraddau salwch a marwolaethau cysylltiedig yno, wedi bod ymhlith yr uchaf yn y DU.

Ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2020, cynhaliwyd cynllun profi torfol peilot ar gyfer ardal gyfan ym Merthyr Tudful ac yn rhan Isaf Cwm Cynon, gan ddefnyddio dyfeisiau llif unffordd. Y nod oedd atal y Coronafeirws rhag lledaenu mewn ardaloedd â nifer fawr o achosion a chyfraddau positif uchel.

Gwahoddwyd aelodau o'r cyhoedd heb symptomau COVID-19 i ganolfannau lleol i gael prawf am COVID-19 gan ddefnyddio dyfeisiau llif unffordd. Nid yw rhwng un o bob tri ac un o bob pedwar o bobl â'r Coronafeirws yn dangos unrhyw symptomau, felly y gobaith oedd canfod achosion o COVID-19 ymhlith pobl heb symptomau na fyddent wedi mynnu prawf fel arall, a hynny drwy gynnydd profion torfol.

AMCANION

Prif amcanion y cynllun profi torfol oedd:

1. Profi p'un a yw'n bosibl lleihau trosglwyddiad COVID-19 yn y gymuned ai peidio gan ddefnyddio profion llif unffordd ar raddfa eang;
2. Sicrhau bod profion ar gael i'r ardaloedd hyn a chynyddu nifer y bobl sy'n dod i gael prawf;
3. Atal trosglwyddiad y feirws ymhellach drwy olrhain cysylltiadau a thrwy fesurau eraill;
4. Diogelu'r rheiny sy'n wynebu'r risg fwyaf;
5. Galluogi'r gymuned leol i atal y feirws rhag lledaenu er mwyn achub bywydau, bywoliaethau a busnesau;
6. Canfod y bobl a oedd yn hunan-ynysu'n ddiangen a'u galluogi i ddychwelyd i'w gweithgareddau arferol;
7. Asesu effaith y profion ar ymddygiad pobl.

GWEITHREDU

Cyflwynwyd y cynlluniau peilot ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2020 o ganlyniad i gydweithrediad na welwyd ei debyg o'r blaen rhwng partneriaid. Ymhlith y rhain roedd yr awdurdodau lleol, y Bwrdd Iechyd, Llywodraeth Cymru, y lluoedd arfog, yr heddlu a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, yn ogystal ag ysgolion a'r trydydd sector.

Yn ardal Merthyr Tudful, cafodd y gwaith ei arwain gan yr Awdurdod Lleol mewn partneriaeth â'r lluoedd arfog. Yn rhan isaf Cwm Cynon, cafodd y gwaith

ei arwain gan yr Awdurdod Lleol yn unig, wrth ddysgu o'r cynllun peilot ym Merthyr Tudful a ddechreuodd bythefnos yn gynharach.

Dyma'r rheiny a wahoddwyd i gael prawf:

- Pobl sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful neu yn ardal rhan isaf Cwm Cynon ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
- Pobl sy'n 11 oed neu'n hŷn;
- Pobl heb symptomau COVID-19;
- Pobl a oedd wedi cydsynio i gymryd rhan yn y cynllun peilot;
- Pobl a oedd wedi cydsynio i rannu eu data â rhaglen Profi, Orlhain, Diogelu Cymru;
- Plant rhwng 11 a 17 oed a gafodd gydsyniad i gymryd rhan.

Sefydlwyd gorsafoedd profi canolog mewn ardaloedd mawr yn y gymuned ac roedd gorsafoedd symudol ar waith ar gyfer cymunedau llai.

Cynhaliwyd cynllun peilot hefyd mewn ysgolion uwchradd, ysgol arbennig ac uned cyfeirio disgyblion yn yr ardaloedd er mwyn ei gwneud yn haws i blant rhwng 11 a 16 oed gael prawf ac er mwyn annog mwy ohonynt i gael prawf.

Cafodd y rheiny mewn addysg bellach eu cyfeirio'n rhagweithiol at gyfleusterau profi cymunedol.

Cynigiwyd profion yn y cartref i bawb ar y rhestr gwarchod.

Sefydlwyd llinell gymorth ynghylch hunan-ynysu i roi gwybodaeth a chynghor i bobl, yn ogystal â chymorth ar gyfer hunan-ynysu i'r rheiny a gafodd prawf positif.

CANLYNIADAU

Dyma brif ganlyniadau'r cynllun peilot:

- Cymerodd nifer fawr o bobl ran yn y cynllun – cafodd 22,021 o bobl ym Merthyr Tudful eu profi, sef bron hanner y boblogaeth darged (49%). Cafodd 10,457 o bobl yn rhagor yn rhan isaf Cwm Cynon eu profi, sef 56% o'r boblogaeth darged. Mae'r ffigurau hyn yn agos at ddwbl ffigurau cynlluniau peilot Lerpwl a'r Alban.
- Cyfradd y profion positif oedd 2.3% ym Merthyr Tudful a 2.6% yn rhan isaf Cwm Cynon. Canfu'r gwerthusiad gyfraddau uwch o brofion positif ymysg dynion, pobl iau, pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, pobl mewn galwedigaethau lle mae cyswllt agos yn fwy tebygol, megis trafndiaeth a lletygarwch, gweithgynhyrchu ac adeiladu, iechyd a gofal cymdeithasol, manwerthu a'r celfyddydau ac adloniant.
- Amcangyfrifir bod y profion torfol ym Merthyr Tudful ac yn rhan isaf Cwm Cynon wedi atal 353 o achosion o COVID-19, 24 o achosion o

orfod mynd i'r ysbyty, 5 achos o orfod mynd i uned gofal dwys ac 14 o farwolaethau;

- Arweiniodd y cynllun peilot at ostyngiad sydyn yn nifer yr achosion o COVID-19 yn yr ardal;
- Wrth ystyried trosglwyddiad yr haint ymhellach yn y gymuned, sydd i'w ddisgwyl gan bobl na oeddent yn gwybod bod COVID-19 ganddynt, ataliwyd mwy nag un o bob deg o achosion a fyddai wedi digwydd fel arall. Mae hyn yn gyfwerth â gostyngiad o 6-12% yn y pwysau ar wasanaethau'r GIG;
- Amcangyfrifir mai budd ariannol net y cynllun peilot oedd £5.8 miliwn. Mae hyn yn gyfwerth â chymhareb cost a budd gwerth oddeutu 11 ar gyfer cost y cynllun, sef £516,000, neu elw gwerth oddeutu £10.30 am bob £1 a wariwyd.
- Roedd cryn lawer o sicrwydd ynghylch profion llif unffordd, gan fod y profion wedi dangos perfformiad da o ran canfod heintiadau asymptomatig. Roedd hyn yn awgrymu bod ganddynt rôl wahanol ond ategol i brofion PCR, sy'n cael eu defnyddio gan amlaf i ganfod heintiadau symptomatig. Nid yw rhwng un o bob tri ac un o bob pedwar o bobl â'r Coronafeirws yn dangos unrhyw symptomau, felly gall profion llif unffordd helpu i ganfod pobl â'r feirws heb symptomau na fyddent wedi mynnu prawf fel arall;
- Roedd y cydweithio ar draws sefydliadau yn dda ac yn allweddol o ran sicrhau llwyddiant y cynllun;
- Roedd lefel uchel o gyfranogiad yn y gymuned, diolch i ymdrechion i dargedu gwaith cyfathrebu ac ennyn diddordeb ledled y gymuned.

CASGLIADAU

Dyma brif gasgliadau'r cynllun profi torfol:

- Nid oedd symptomau gan fwyafrif helaeth (99.6%) y rheiny a ddaeth i'r canolfannau profi torfol, sy'n dangos bod y gymuned wedi deall diben y profion ac wedi dod i'r canolfannau yn briodol;
- Trosglwyddiad mewn aelwydydd oedd prif ffynhonnell yr heintiad;
- Roedd gweithio yn y sector lletygarwch ac ymweld â thafarndai hefyd yn risgiau sylweddol, ond yn sgil y cyfyngiadau ar y pryd, ni chafodd y moddau hyn gyfraniad mawr;
- Cafodd ysmegu neu ddefnyddio e-sigaréts effaith fach ond sylweddol;
- Nid oedd awgrym bod gweithio yn y maes addysg, byw gyda rhywun sy'n gweithio yn y maes addysg, cyfrifoldebau gofalu nac ymweld ag archfarchnad, tŷ bwyta, campfa neu ganolfan hamdden yn cynyddu'r risg o gael heintiad;
- Mae'r nifer lai o bobl a gafodd eu profi ymysg y grwpiau o'r boblogaeth â chyfraddau uwch o brofion positif yn enghraifft amlwg o "gyfraith profi

gwrthdro". Bydd hyn yn bwysig wrth lywio strategaethau profi yn y dyfodol.

ARGYMHELLION

Mae'r gwerthusiad yn gwneud sawl argymhelliad allweddol ar gyfer gweithio gyda phrofion llif unffordd a phrofion torfol mewn ardal gyfan yn y dyfodol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dylid ystyried bod profion torfol ar gyfer aelodau asymptomatig o'r gymuned yn rhan bwysig ac effeithiol o unrhyw gynllun rheoli COVID-19;
- Dylid targedu'r defnydd o ddyfeisiau llif unffordd at ardaloedd a grwpiau sy'n wynebu mwy o risg o gael eu heintio. Argymhellir prawf PCR dilynol o fewn 24 awr er mwyn sicrhau bod achosion a chysylltiadau yn sgil nifer fach o ganlyniadau positif ffug yn gallu rhoi'r gorau i hunan-ynysu;
- Dylid targedu profion at ardaloedd mwy difreintiedig, dynion, pobl iau a galwedigaethau â chyswllt agos sy'n methu â gweithio gartref, er enghraifft trafndiaeth, adeiladu a gweithgynhyrchu, gwasanaethau personol megis gwallt a harddwch ac iechyd a gofal cymdeithasol;
- Dylid integreiddio'r broses o olrhain cysylltiadau yn llawn yn y gwaith o olrhain achosion at ddibenion hunan-ynysu a chymorth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac er mwyn torri cadwyni trosglwyddiad;
- Mae'n hanfodol bod y gwaith hwn yn cael ei arwain yn lleol, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd a'r trydydd sector;
- Mae angen cyfathrebu ac ymgysylltu'n briodol ag aelodau o'r gymuned a busnesau lleol er mwyn sicrhau cyfranogiad da.

Hoffem ddiolch i'r partneriaid a gydweithiodd â ni ar bob cam o'r broses, ac i'r cymunedau a gymerodd ran yn y cynllun peilot i sicrhau ei fod yn llwyddiannus. Heb eu hymroddiad a'u gwaith caled, ni fyddai'n bosibl cynnal cynllun o'r raddfa hon.

I ddarllen yr adroddiad llawn, cliciwch [yma](#).

I ddarllen y crynodeb gweithredol o'r adroddiad, cliciwch [yma](#).